# 11b. Taflen ffeithiau am wybodaeth athrawon Tybaco Anghyfreithlon

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae yna bryder gwirioneddol ynghylch cynnyrch tybaco anghyfreithlon sydd ar werth yn ein cymunedau. Mae mangreoedd yn ymddangos ledled Cymru lle mae tybaco anghyfreithlon yn cael ei gyflenwi.
Nid yw i'w weld ond mae'n aml yn cael ei guddio'n gelfydd wrth guddio llefydd ar safle'r siop neu mewn lleoliadau eraill fel ceir sydd wedi'u parcio'n agos. Yn aml mae gan y siopau hyn gynhyrchion eraill gyda bywyd silff hir iawn yn cael ei arddangos fel 'masquerade' ar gyfer gwerthu tybaco anghyfreithlon.
Mae plant hefyd yn cael eu targedu i brynu'r cynhyrchion hyn.

**Tybaco anghyfreithlon – Felly beth yw'r broblem?**

1. Mae ysmygu'n niweidiol iawn i'ch corff. Rydyn ni'n siarad am ganser, clefyd yr ysgyfaint a chlefyd y galon a marwolaeth.
2. Ffarweliwch â'ch arian os ydych chi'n gaeth i ysmygu. Ffarweliwch â gwyliau, ffonau gwell, neu ddillad newydd.
3. Bydd eich gwallt a'ch dillad yn drewi, bydd eich dannedd a'ch dwylo'n troi'n felyn. Tydy clefyd deintyddol ddim yn beth hardd!
4. Gallech golli swyddi yn y dyfodol, neu gallech gael trafferth hyd yn oed cael swydd pan fyddwch yn ysmygu.
5. Mae gwerthiant tybaco anghyfreithlon i gyd yn cael eu cysylltu'n rhy aml â chaethwasiaeth ac ecsbloetiaeth fodern.

Mae'n anghyfreithlon gwerthu sigaréts mewn symiau bach neu yn unigol, fodd bynnag, mae yna achosion lle mae hyn yn digwydd i dargedu pobl iau sydd â llai o arian ar gael. Yn ogystal, mae plant yn agored i gael eu hecsbloetio gan y troseddwyr cyfundrefnol hyn fel rhedwyr wrth werthu'r cynhyrchion hyn, ac mae hyn yn dod o dan ymbarél gweithgaredd llinellau sirol.

**Gall sylwi ar dybaco anghyfreithlon fod yn anodd, ond cadwch lygad am:**

1. Prisiau rhad
2. Diffyg rhybuddion iechyd
3. Ieithoedd tramor ar y pecynnu
4. Wedi'i werthu mewn siopau heb drwydded, cartrefi preifat, tafarndai a chlybiau neu a hysbysebir ar y cyfryngau cymdeithasol

I gael rhagor o wybodaeth - ewch i [ASH Wales - Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd Cymru]


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

# 11b. Carwsél Torri'r Iâ Cyfreithlon/Anghyfreithlon Taflen Atebion Athrawon

Rhannwch y dosbarth yn bum grŵp. Rhowch ddatganiad i bob grŵp, a chaniatewch amser trafod o ddwy funud iddynt benderfynu pa un ai a yw'r datganiad yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon. Cylchdrowch y datganiadau bob dwy funud a sicrhewch fod pob grŵp wedi trafod pob datganiad yn eu tro. Yna, gall pob grŵp rhoi adborth o'u trafodaethau.

1. **Pwrs baco a brynwyd gan ffrind neu berthynas.**

## Anghyfreithlon

Mae'n anghyfreithlon prynu unrhyw gynnyrch baco ac yna ei werthu i eraill.
Mae'n anghyfreithlon prynu cynnyrch baco os ydych o dan 18 oed.

2. **Pecyn o sigarennau a brynwyd o'ch siop leol. Nid oes ysgrifen Saesneg arno.**

## Anghyfreithlon

Rhaid i sigarennau a werthir yn y DU fod ag ysgrifen Saesneg, rhybuddion iechyd ysgrifenedig a darluniadol, dim camgymeriadau sillafu, a nod cyllidol *UK DUTY PAID* ("talwyd toll y DU").

3. **Pecyn o sigarennau brand o'r DU, a brynwyd o archfarchnad am y pris manwerthu a argymhellir.**

## Cyfreithlon

Mae hyn yn cydymffurfio á safonau masnachu'r DU.

4. **Pecyn o sigarennau a brynwyd gan ffrind yn ei gartref/chartref**.

## Anghyfreithlon

Mae'n anghyfreithlon prynu unrhyw gynnyrch baco ac yna ei werthu i eraill.
Mae'n anghyfreithlon prynu cynnyrch baco os ydych o dan 18 oed.

5. **Sigarét sengl a brynwyd gan unrhyw un, unrhyw le.**

## Anghyfreithlon

Yn 1991, daeth yn anghyfreithlon gwerthu sigarennau unigol yn y DU.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023